



PRIFYSGOL

ABERYSTWYTH  
UNIVERSITY

# YR AROLWG BUSNES FFERM YNG NGHYMRU

---

Llyfryn Incwm Fferm Cymru

Canlyniadau 2015/16

---

*8mlynedd*  
o'r Arolwg Busnes Fferm

Athrofa y Gwyddorau Biolegol,  
Amgylcheddol a Gwledig

<b>CYNNWYS</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Rhagair</b>	1
<b>Trosolwg</b>	2
<b>Cyflwyniad</b>	4
<b>Diffiniad o Derminoleg a Nodiadau Eglurhaol</b>	5
<b>Data Fferm Gyfan</b>	
Ffermydd mynydd gwartheg a defaid	7
Ffermydd mynydd defaid	9
Ffermydd ucheldir gwartheg a defaid	11
Ffermydd llawr gwlad gwartheg a defaid	13
Ffermydd godro – ardaloedd llai ffafriol	15
Ffermydd godro – llawr gwlad	17
<b>Data Elw Bras</b>	
Defaid mynydd	19
Defaid ucheldir	19
Defaid llawr gwlad	20
Buchod sugno llawr gwlad	20
Buchod sugno ucheldir	21
Buchod sugno mynydd	21
Buchod godro ardaloedd llai ffafriol	22
Buchod godro llawr gwlad	22
<b>Data Costau Cynhyrchu</b>	
Costau cynhyrchu cig oen	23
Costau cynhyrchu llaeth	23
Costau cynhyrchu cig eidion: lloi sugno	24
Costau cynhyrchu cig eidion: pesgi	24
<b>Anghenion Elw Fferm</b>	25

Prifysgol  
Aberystwyth  
University

---

**Llyfryn Incwm Fferm Cymru  
Canlyniadau 2015/16**

---

**Arolwg Busnes Fferm**

Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig  
Prifysgol Aberystwyth  
Gogerddan  
Aberystwyth  
Ceredigion SY23 3EE

**Cyfarwyddwr**

Tony O'Regan

**Staff yr Uned**

Nigel Chapman  
Rowland Davies  
Eileen Edwards  
Brenda Jones  
Dylan Jones  
Eric Jones  
Huw Morris  
Nick Reeves  
Tegid Roberts  
Huw Williams  
Ian Williams

Ffôn: 01970 622253  
E-bost: [farmsurv@aber.ac.uk](mailto:farmsurv@aber.ac.uk)  
<https://www.aber.ac.uk/cy/ibers/fbs/>

## Rhagair

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn ymchwilio incwm ffermydd Cymru er cyn yr Ail Ryfel Byd, a mae 2015/16 yn benblwydd 80<sup>ain</sup> mlynedd yr Arolwg. Mae'r Arolwg, sy'n cael ei gydnabod fel yr un mwyaf awdurdodol ar sefyllfa ariannol a pherfformiad incwm ffermydd, yn darparu gwybodaeth i wneuthurwyr polisi ar gyflwr economaidd y diwydiant ac yn darparu data cymharol sydd yn werthfawr ar gyfer asesu perfformiad ffermydd unigol.

Mae'r llyfryn hwn yn seiliedig ar yr Arolwg Busnes Fferm (ABFf) llawn sy'n cynnwys gwybodaeth a gasglwyd ar dros 550 o ffermydd Cymru a ddewiswyd ar hap. Bwriad y llyfryn yw darparu teclyn meincnodi sy'n hawdd ei ddefnyddio i ffermwyr ac mae'n cynnwys y wybodaeth ariannol a ffisegol ddiweddaraf am y prif fathau o ffermydd yng Nghymru. Mae'r canlyniadau a ddangosir yn groes i rai agweddau o fethodoleg yr ABFf a'r ffordd o gyflwyno canlyniadau, er enghraifft, mae mewnbynnau tybiannol megis gwerth rhentu ar gyfer ffermydd ym meddiant y perchennog a llafur di-dâl wedi cael ei gymryd allan tra bo taliadau cyllid wedi cael eu cynnwys, er mwyn i'r ffigurau hyn gynrychioli costau gwirioneddol. Mae'r llyfryn hwn yn dangos llafur di-dâl i ddibenion cyfeirio yn unig ac hefyd mae ond yn cynnwys rhai mathau o ffermydd. Ar gyfer dadansoddiad cynhwysfawr ac ar gyfer ddadansoddi tueddiadau blwyddyn ar flwyddyn ar incwm, cyfeiriwch at y canlyniadau llawn a gyhoeddwyd yn adroddiad blynyddol 'Arolwg Busnes Ffermydd yng Nghymru: Canlyniadau Ystadegol' (ar gael ar-lein).

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn gysylltiedig ag astudiaethau'r tir ers 1878, a'r ABFf yw ei chytundeb ymchwil hynaf. Priodol felly yw cydnabod yn ddiolchgar y llu o ffermwyr ledled Cymru sydd wedi darparu gwybodaeth fanwl; Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r Arolwg presennol a staff yr Arolwg, ddoe a heddiw.

**Tony O'Regan**

**Cyfarwyddwr yr Arolwg Busnes Fferm**

## Trosolwg

Mae'r canlyniadau yn y llyfryn hwn yn cynnwys y blynyddoedd cyfrifo a ddaeth i ben rhwng 31 Rhagfyr 2015 a 31 Mawrth 2016 ac maent felly'n adlewyrchu'r amodau ffermio rhwng Ionawr 2015 a Mawrth 2016. Bwriad y trosolwg hwn yw darparu cyd-destun a chipolwg o'r cyfnod y mae'r canlyniadau'n ei gynrychioli.

Dechreuodd y flwyddyn gyda lefelau da o stociau porthiant o ansawdd da. Ar ddechrau 2015 cafwyd tywydd mwyn, gwlyb oedd yn golygu bod cnydau wedi tyfu'n araf, arweiniodd at rywffaint o ddifrod i'r pridd gyda anawsderau wrth wagio storffeydd slyri yn gynnar. Llwyddodd lawer i droi da byw allan yn gynnar, ac yn sgil tywydd ffafriol cafwyd tymor pori da a chynaeafau rhesymol, er bod hydref gwlypach wedi cwtsogi ar y tymor pori i rai a'i gwneud yn anodd i dyfwyr grawn. Cafwyd gaeaf gwlyb a arweiniodd at lifogydd lleol a mwy o broblemau resbiradol mewn anifeiliaid.

Ar ôl cyfnod wyna da, gwelodd cynhyrchwyr defaid ostyngiad mawr mewn prisiau drwy gydol y tymor er bod rhywfaint o welliant erbyn gwanwyn 2016, ond roedd hynny'n rhy hwyr i fod o fudd i neb ar wahân i'r rheini a gafodd drafferth pesgi wyna yn yr hydref. Daliodd prisiau gwlan eu tir, ond cafwyd gwmp llym o ran elw defaid o'i gymharu â'r flwyddyn gynt. Roedd ffawd pesgwyr eidion ychydig yn well ond hynny dim ond oherwydd bod y prisiau gwael wedi cadw ychydig yn fwy cadarn i ddechrau, ond yna cafwyd cwmp sylweddol cyn adennill ychydig ar ddechrau 2016 cyn cwmpo'n ôl unwaith eto. Llwyddodd cynhyrchwyr stôr a gwerthwyr lloi o'r fuches odro i wneud yn well. Helpodd y tymor tyfu da, ynghyd a phrisiau is am fwydydd a gwrtaith, tuag at elw gwartheg.

Er gwaethaf y costau is am wrtaith, gwelodd cynhyrchwyr grawn gynnydd mewn costau agrochemegion. Ar y cyfan roedd pwysau'r cnydau i fyny, ond cafwyd cyfnod cynaeafu anodd i gnydau a aeddfedodd yn hwyr. Yn gyffredinol roedd y prisiau'n wael a chan mai prin oedd y gobeithion at y dyfodol, cafwyd gostyngiadau o ran buddsoddiadau ar ffermydd.

Cafwyd 'storm berffaith' yn y sector llaeth yn cynnwys prisiau arswydus, cwotâu A a B / contractau anffafriol, y cyflenwad yn fwy na'r galw, y TB hollbresennol, a hynny i gyd ar ôl i lawer o gynhyrchwyr wneud buddsoddiadau'n

ddiweddar. Gyda rhai prisiau yn llai na 20c/l, roedd y flwyddyn yn gyfnod masnachu eithriadol o anodd i lawer. Roedd y rheini ar gontractau aliniedig ac yn cynhyrchu mewn ardaloedd lle'r oedd prynwyr niferus yn gwneud yn well, ond parhaodd y sector i golli hyder a chynhyrchwyr yn ddi-dor.

Ymhlith yr elfennau eraill sy'n haeddu sylw yn y cyfnod oedd cyflwyniad drafferthus y Cynllun Taliad Sylfaenol (CTS) gyda thaliadau'n cael eu hoedi am fisoedd mewn llawer achos; galwadau am gredyd estynedig oherwydd problemau llif arian; pwysau'r farchnad fyd-eang a chyfraddau cyfnewid niweidiol; enillion sylweddol i rai a fuddsoddodd mewn ynni adnewyddadwy, a mwy o alw am dir ar gyfer cynhyrchu ynni.

Mae'r canlyniadau'n amlygu gwahaniaethau sylweddol rhwng ffermydd 'canolig' eu perfformiad a'r rhai yn y 'traean uchaf'. Er enghraifft, roedd elw £ fesul hectar effeithiol y traean uchaf o ffermydd gwartheg a defaid dros ddwywaith yn fwy na'r ffermydd canolig yn y samplau. Yn yr un modd, ar ffermydd llaeth gwnaeth y cynhyrchwyr yn y traean uchaf elw net oedd dros chwe gwaith yn uwch na'r traean isaf. Roedd amrywiaeth tebyg i'w weld ymhlith cynhyrchwyr cig, gyda chynhyrchwyr cig oen yn amrywio rhwng gwneud 31c/kg a cholli 82c/kg, a chynhyrchwyr cig eidion yn amrywio o 28c/kg o elw i 150c/kg o golled. Fodd bynnag nid yw'r holl ganlyniadau hyn yn ystyried cost llafur y ffarmwr, ac fe all y canlyniadau hynny, o'u camddefnyddio, roi darlun ffug o economeg cynhyrchu. Y sector llaeth sy'n dangos hyn orau oherwydd gall y costau llafur/pensiwn yn unig ychwanegu tua 7-8c/l, gan fynd â chostau'r cynhyrchwyr sydd ar y brig i dros 26c/l a'r rhai ar y gwaelod yn agosach i 33c/l.

Mae angen rhoi sylw penodol hefyd i gyfraniad y CTS, cymorthdaliadau eraill ac incwm o ffynonellau arallgyfeirio er mwyn i'r darllenydd allu ystyried cyfraniad y mentrau 'ffermio' tuag at yr elw. Er enghraifft cyfrannodd y tair ffynhonnell hyn, ar gyfartaledd, tua 39% o allbwn a 173% o elw i ffermydd defaid mynydd.

Caiff ffermwyr eu beirniadu am godi bwganod. Fodd bynnag, mae'n anodd gweld sut gall llawer o ffermydd Cymru gynhyrchu bwyd yn economaidd ar hyn o bryd heb ddibynnu ar incwm sylweddol o'r tu allan i ffermio a thaliadau amserol o'r CTS.

## **Cyflwyniad**

Mae proffidioldeb yn ganolog i unrhyw fusnes fferm, er y bydd gan ffermwyr lawer o amcanion busnes a phersonol eraill. Gyda chyflwyniad Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r heriau economaidd parhaol, dylai pob ffermwr wybod am eu costau cynhyrchu a sut maent yn cymharu â chostau cynhyrchwyr eraill. Mae'r amrywiaeth o ran perfformiad ac elw a welir yn y llyfryn hwn yn dangos ehangder y gwellianau posib a thrwy gymharu neu 'feincnodi' perfformiad fferm, gellir adnabod cryfderau a gwendidau y busnes.

Mae'r canlyniadau yn y llyfryn wedi eu gosod allan fel a ganlyn gan ddangos data ar gyfer y busnesau yn gyfartalog ar trean uchaf o ran perfformiad:

### **1. Data Fferm Gyfan (Tudalennau 7 – 18)**

Cyflwynir gyfrifon elw a cholled a mantolen gryo ar gyfer chwe gwahanol fath o fferm. Dengys y canlyniadau gyfartaledd elw neu golled y ffermydd hyn ynghyd â'r cyfartaledd fesul hectar. Dengys hefyd faint a graddfa stocio'r ffermydd ynghyd â dangosyddion perfformiad allweddol, perthnasol eraill.

### **2. Data Elw Bras (Tudalennau 19 – 22)**

Yn y llyfryn ceir data ar gyfer wyth gwahanol fenter fferm. Mae elw bras yn cymharu incwm gyda chostau uniongyrchol cynhyrchu. Mae angen cryn ofal wrth ddefnyddio elw bras gan nad yw costau anuniongyrchol (sefydlog) y cynhyrchu yn cael eu hystyried.

### **3. Data Costau Cynhyrchu (Tudalennau 23 – 24)**

Yn y llyfryn ceir costau cynhyrchu ar gyfer pedwar allbwn amaethyddol. Ystyrir cyfanswm cost cynhyrchu fesul uned. Trwy ystyried y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol (a ddyfernir fesul uned da byw) mae cynhyrchwr mewn gwell lle i ystyried pa mor gystadleuol ac effeithiol yw'r fenter.

## DIFFINIADAU O DERMINOLEG A NODIADAU EGLURHAOL

*Hectarau effeithiol (Eff. Ha.)* Golyga arwynebedd y fferm gyfan ar ôl tynnu arwynebedd ffyrdd, coetiroedd, tir diffaith ac adeiladau ac ar ôl ystyried porfa bras yn ôl ei arwynebedd cyfwerth o dir pori da.

### **Mathau o Ffermydd**

*Mynydd* Yn yr Ardal Dan Anfantais Fawr yn bennaf.

*Ucheldir* Yn yr Ardal Dan Anfantais yn bennaf.

*Llawr Gwlad* Y tu allan i'r Ardal Llai Ffafirol yn bennaf.

### **Data Fferm Gyfan**

*Penderfynu data fferm gyfan* Dynodir y cynhyrchwyr uchaf yn ôl elw ar ôl rhent a chyllid fesul hectar effeithiol.

*Cymorthdaliadau anuniongyrchol* Cymorthdaliadau na gafwyd eu dadgyplu e.e. cynllun Organig a Glastir.

*Costau cnydau eraill* Yn cynnwys holl gostau porthiant a chnydau eraill e.e. hadau, chwystrellion, lapio a chortyn ond nid gwrtaiith a chontractio.

*Contractio penodedig* Contractio y gellir ei gysylltu â mentrau penodedig e.e. combeinio, cneifio a gwasgaru slyri.

*Costau fferm cyffredinol* Yn cynnwys trydan, ffôn, yswiriant, trwyddedau, ffioedd proffesiynol a thanysgrifiadau.

*Incwm amrywiol* Yn cynnwys contractio, rhent bythynod, taliadau fforddfraint ac unrhyw incwm amrywiol arall. Yn cynnwys elw o unrhyw fentrau arall sydd ddim yn arddangos.

*Cyfran o'r fferm a berchnogir* Gwerth Net wedi ei fynegi fel canran o'r asedau cyfan.

*Cyfradd Stocio (glu/adj. forage ha)* Unedau pori da byw fesul hectar o dir porthiant wedi'i gymhwyso.

*Unedau Da Byw (LU) ac Unedau Pori Da Byw (GLU)* Cyfnewidir niferoedd da byw yn unedau da byw ar sail amcangyfrif o anghenion egni, er mwyn cyfrifo cyfanswm stocio'r da byw sy'n pori ar y fferm.

*Buchod godro – allbwn arall* Allbwn net o werthu / brynu gwartheg a lloi. Hefyd yn cynnwys newid mewn gwerth.

*Incwm o Gynhyrchu Egni* Yn cynnwys incwm o brosiectau cynhyrchu egni o eiddo'r ffermwr ac eraill, gan gynnwys gwynt, haul, biomas, dŵr, AD ac ati.



<i>Llafur taledig</i>	Cyfanswm y llafur a dalwyd yn cynnwys llafur achlysurol, rhan amser a llawn amser.
<i>Llafur di-dâl</i> (heb gynnwys ffermwr a'i briod)	Llafur di-dâl neu lafur a dderbynnir am daliad sydd yn llai na'r hyn a delir fel arfer am y gwasanaeth. Ni chaiff llafur di-dâl ei gynnwys yn yr elw ar ôl rhent a chyllid.
<i>Costau tir</i>	Yn cynnwys costau'n berthnasol i atgyweirio adeiladau ac adnoddau tir e.e. gwrychoedd, ffensio, walio, ffosydd a chlwydi. Hefyd yn cynnwys costau dŵr.
<i>Cyllid</i>	Yn cynnwys costau banc, taliadau llog ac unrhyw log prydlesu / hur-bryniant. Dim yn cynnwys ad-daliadau cyfalaf.
<b><i>Data Elw Bras</i></b>	Y pen ar sail y fuches / ddiadell. Dangosir i'r mentrau penodol drwy dynnu'r costau uniongyrchol (amrywiol) o'r allbwn perthnasol.
<i>Costau da byw eraill</i>	Prynu deunyddiau megis gwellt, comisiwn gwerthu a chostau penodol eraill y mentrau da byw.
<i>Porthiant a chostau porthiant</i>	Yn cynnwys costau eraill i borthiant, gwrtaithe contractio porthiant a chostau tir pori tymhorol.
<b><i>Data Costau Cynhyrchu</i></b>	Cyfririr drwy rannu'r costau amrywiol a sefydlog gyda'r cilogram o gig (mewn pwysau byw) neu litr o laeth a gynhyrchir. Penodi'r y costau sefydlog ar unedau pori da byw ar ôl i'r cyfran o unrhyw dir â'r a / neu incwm amrywiol gael ei ddiddynnu. Yn drefnedig drwy elw net.
<i>Adnewyddu buches/diadell</i>	Newid yng ngwerth da byw magu, wedi ystyried gwerthiant anifeiliaid a phryniant anifeiliaid magu.
<i>Pŵer a pheiriannau</i>	Yn cynnwys atgyweirio peirianwaith, tanwydd, contractio arall a dibrisio peiriannau.
<i>Adeiladau</i>	Costau tir a dibrisiad adeiladau.
<i>Elw net</i>	Allbwn ar ôl cyfanswm costau / mewnbwn i fentrau penodol.

## DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd : 121

	Pob fferm	Pob fferm	Traean uchaf
	£/fferm	£/eff.ha.	£/eff.ha.
<b>ALLBYNNAU</b>			
Gwartheg cig eidion	43,190	347	440
Defaid	41,210	331	458
Cnydau a phorthiant	2,080	17	27
Taliad Sylfaenol	23,483	189	219
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	6,752	54	77
Incwm o gynhyrchu egni	2,140	17	40
Incwm amrywiol	5,740	46	58
<b>CYFANSWM ALLBYNNAU</b>	<b>124,595</b>	<b>1,001</b>	<b>1,319</b>
<b>MEWNBYNNAU</b>			
Bwydydd	18,309	147	163
Costau tir pori tymhorol	5,348	43	50
Milfeddygol a meddyginiaethau	5,184	42	44
Costau da byw eraill	8,536	69	87
Gwrteithiau	7,471	60	67
Costau cnydau eraill	2,022	16	15
Contractio penodedig	4,301	35	37
<b>CYF. COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>51,171</b>	<b>412</b>	<b>463</b>
Llafur y telir amdano	4,755	38	40
Contractio arall a llogi peiriannau	896	7	6
Tanwydd a thrwsio	10,063	81	87
Dibrisiant peiriannau	13,159	106	114
Costau ffermio cyffredinol	10,241	82	92
Costau tir	4,503	36	38
Dibrisiant adeiladau	3,665	29	30
<b>CYF. COSTAU SEFYDLOG</b>	<b>47,282</b>	<b>379</b>	<b>407</b>
<b>CYFANSWM MEWNBYNNAU</b>	<b>98,453</b>	<b>791</b>	<b>870</b>
<b>ELW CYN RHENT A CHYLLID</b>	<b>26,142</b>	<b>210</b>	<b>449</b>
Rhent	3,020	24	21
Cyllid	4,246	34	36
<b>ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID</b>	<b>18,876</b>	<b>152</b>	<b>392</b>
Llafur di-dâl	6,622	53	69

**FFERMYDD MYNYDD GWARTHEG A DEFAID****2015/16**

	Wedi'i pherchnogi £/fferm	Tenant £/fferm	Cymysg £/fferm
<b>MANTOLEN</b>			
Nifer o ffermydd	60	7	54
CYFANSWM ASEDAU	1,218,819	281,662	1,128,680
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	122,023	51,503	99,595
<b>GWERTH NET</b>	<b>1,096,796</b>	<b>230,159</b>	<b>1,029,085</b>
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	90	82	91

<b>DATA FFISEGOL</b>	<b>Pob fferm</b>	<b>Traean uchaf</b>
<b>ARWYNEBEDD TIR</b>	<b>Hectarau</b>	<b>Hectarau</b>
Glaswelltir a chnydau phorthiant	110.51	99.62
Ydau a chnydau eraill	1.03	0.85
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	43.29	48.66
<b>CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)</b>	<b>154.83</b>	<b>149.13</b>
<b>CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)</b>	<b>124.45</b>	<b>112.53</b>

<b>DA BYW</b>	<b>Pob fferm</b>	<b>Traean uchaf</b>
	<b>Nifer</b>	<b>Nifer</b>
Buchod sugno	43	45
Gwartheg eraill	92	92
Defaid magu	590	593
Defaid eraill	409	476

<b>DANGOSYDDION PERFFORMIAD</b>	<b>Pob fferm</b>	<b>Traean uchaf</b>
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad )	1.25	1.35
Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (nifer y ddafad)	0.94	1.05
Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (£ y oen)	63.62	66.11
Lloi a fegir (nifer y fuwch )	0.89	0.94
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi ( £ y pen)	1,113	1,244
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	877	941
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	1.03	1.18

## DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd : 117

	Pob fferm	Pob fferm	Traean uchaf
	£/fferm	£/eff.ha.	£/eff.ha.
<b>ALLBYNNAU</b>			
Gwartheg cig eidion	11,959	83	110
Defaid	53,256	368	460
Cnydau a phorthiant	998	7	7
Taliad Sylfaenol	23,942	165	194
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	10,972	76	109
Incwm o gynhyrchu egni	944	7	7
Incwm amrywiol	5,180	36	37
<b>CYFANSWM ALLBYNNAU</b>	<b>107,251</b>	<b>742</b>	<b>924</b>
<b>MEWNBYNNAU</b>			
Bwydydd	13,097	90	106
Costau tir pori tymhorol	5,052	35	48
Milfeddygol a meddyginiaethau	4,291	30	32
Costau da byw eraill	6,157	42	52
Gwrteithiau	5,670	39	39
Costau cnydau eraill	1,263	9	9
Contractio penodedig	3,108	21	20
<b>CYF. COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>38,638</b>	<b>266</b>	<b>306</b>
Llafur y telir amdano	3,807	26	13
Contractio arall a llogi peiriannau	614	4	5
Tanwydd a thrwsio	8,641	60	62
Dibrisiant peiriannau	10,428	72	74
Costau ffermio cyffredinol	8,983	62	62
Costau tir	4,802	33	22
Dibrisiant adeiladau	2,313	16	14
<b>CYF. COSTAU SEFYDLOG</b>	<b>39,588</b>	<b>273</b>	<b>252</b>
<b>CYFANSWM MEWNBYNNAU</b>	<b>78,226</b>	<b>539</b>	<b>558</b>
<b>ELW CYN RHENT A CHYLLID</b>	<b>29,025</b>	<b>203</b>	<b>366</b>
Rhent	2,481	17	18
Cyllid	2,792	19	24
<b>ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID</b>	<b>23,752</b>	<b>167</b>	<b>324</b>
Llafur di-dâl	4,275	29	40

**FFERMYDD MYNYDD DEFAID****2015/16**

	Wedi'i pherchnogi £/fferm	Tenant £/fferm	Cymysg £/fferm
<b>MANTOLEN</b>			
Nifer o ffermydd	65	12	40
CYFANSWM ASEDAU	1,228,377	180,467	938,115
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	88,035	44,834	75,582
<b>GWERTH NET</b>	<b>1,140,342</b>	<b>135,633</b>	<b>862,533</b>
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	93	75	92

<b>DATA FFISEGOL</b>	Pob fferm	Traean uchaf
<b>ARWYNEBEDD TIR</b>	Hectarau	Hectarau
Glaswelltir a chnydau phorthiant	121.67	113.92
Ydau a chnydau eraill	0.07	0.07
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	79.12	101.42
<b>CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)</b>	<b>200.86</b>	<b>215.41</b>
<b>CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)</b>	<b>144.91</b>	<b>144.13</b>

<b>DA BYW</b>	Pob fferm Nifer	Traean uchaf Nifer
Buchod sugno	11	16
Gwartheg eraill	26	30
Defaid magu	905	997
Defaid eraill	587	764

<b>DANGOSYDDION PERFFORMIAD</b>	Pob fferm	Traean uchaf
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad )	1.18	1.22
Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (nifer y ddafad)	0.76	0.78
Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (£ y oen)	63.00	64.76
Lloi a fegir (nifer y fuwch )	0.87	0.87
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi ( £ y pen)	1,179	1,123
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	922	933
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	0.69	0.77

## DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd : 94

	Pob fferm	Pob fferm	Traean uchaf
	£/fferm	£/eff.ha.	£/eff.ha.
<b>ALLBYNNAU</b>			
Gwartheg cig eidion	38,945	372	495
Defaid	35,126	335	445
Cnydau a phorthiant	4,915	47	51
Taliad Sylfaenol	17,687	169	189
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	3,301	32	28
Incwm o gynhyrchu egni	1,011	10	8
Incwm amrywiol	6,605	63	75
<b>CYFANSWM ALLBYNNAU</b>	<b>107,590</b>	<b>1,028</b>	<b>1,291</b>
<b>MEWNBYNNAU</b>			
Bwydydd	12,848	123	141
Costau tir pori tymhorol	2,898	28	39
Milfeddygol a meddyginiaethau	4,032	39	43
Costau da byw eraill	6,768	65	78
Gwrteithiau	7,601	73	74
Costau cnydau eraill	2,116	20	21
Contractio penodedig	3,953	38	39
<b>CYF. COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>40,216</b>	<b>386</b>	<b>435</b>
Llafur y telir amdano	3,445	33	28
Contractio arall a llogi peiriannau	851	8	9
Tanwydd a thrwsio	8,353	80	85
Dibrisiant peiriannau	10,616	101	102
Costau ffermio cyffredinol	8,721	83	85
Costau tir	4,590	44	39
Dibrisiant adeiladau	2,882	28	18
<b>CYF. COSTAU SEFYDLOG</b>	<b>39,458</b>	<b>377</b>	<b>366</b>
<b>CYFANSWM MEWNBYNNAU</b>	<b>79,674</b>	<b>763</b>	<b>801</b>
<b>ELW CYN RHENT A CHYLLID</b>	<b>27,916</b>	<b>265</b>	<b>490</b>
Rhent	3,996	38	32
Cyllid	3,578	34	35
<b>ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID</b>	<b>20,342</b>	<b>193</b>	<b>423</b>
Llafur di-dâl	4,646	44	54

	Wedi'i pherchnogi	Tenant	Cymysg
	£/fferm	£/fferm	£/fferm
<b>MANTOLEN</b>			
Nifer o ffermydd	49	6	39
CYFANSWM ASEDAU	916,691	155,686	1,089,130
CYF. DYLEDION ALLANOL	56,903	11,683	149,664
<b>GWERTH NET</b>	<b>859,788</b>	<b>144,003</b>	<b>939,466</b>
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	94	92	86

<b>DATA FFISEGOL</b>	Pob fferm	Traean uchaf
<b>ARWYNEBEDD TIR</b>	Hectarau	Hectarau
Glaswelltir a chnydau phorthiant	96.60	102.91
Ydau a chnydau eraill	2.46	2.52
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	13.15	9.59
<b>CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)</b>	<b>112.21</b>	<b>115.02</b>
<b>CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)</b>	<b>104.73</b>	<b>109.80</b>

<b>DA BYW</b>	Pob fferm	Traean uchaf
	Nifer	Nifer
Buchod sugno	30	32
Gwartheg eraill	83	118
Defaid magu	452	507
Defaid eraill	318	378

<b>DANGOSYDDION PERFFORMIAD</b>	Pob fferm	Traean uchaf
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad )	1.42	1.51
Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (nifer y ddafad)	1.19	1.39
Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (£ y oen)	68.49	72.09
Lloi a fegir (nifer y fuwch )	0.90	0.92
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi ( £ y pen)	1,214	1,178
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	840	867
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	1.10	1.28

## DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd : 56

	Pob fferm	Pob fferm	Traean uchaf
	£/fferm	£/eff. ha.	£/eff. ha.
<b>ALLBYNNAU</b>			
Gwartheg cig eidion	30,944	427	430
Defaid	27,098	374	604
Cnydau a phorthiant	7,998	110	119
Taliad Sylfaenol	13,913	192	219
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	1,745	24	23
Incwm o gynhyrchu egni	817	11	22
Incwm amrywiol	3,966	55	86
<b>CYFANSWM ALLBYNNAU</b>	<b>86,481</b>	<b>1,193</b>	<b>1,503</b>
<b>MEWNBYNNAU</b>			
Bwydydd	9,922	137	154
Costau tir pori tymhorol	1,891	26	52
Milfeddygol a meddyginiaethau	2,661	37	47
Costau da byw eraill	5,611	77	100
Gwrteithiau	5,262	73	81
Costau cnydau eraill	2,647	37	44
Contractio penodedig	3,320	46	59
<b>CYF. COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>31,314</b>	<b>433</b>	<b>537</b>
Llafur y telir amdano	3,235	45	24
Contractio arall a llogi peiriannau	1,128	16	9
Tanwydd a thrwsio	6,993	96	115
Dibrisiant peiriannau	9,426	130	127
Costau ffermio cyffredinol	8,953	123	125
Costau tir	3,226	44	41
Dibrisiant adeiladau	3,146	43	32
<b>CYF. COSTAU SEFYDLOG</b>	<b>36,107</b>	<b>497</b>	<b>473</b>
<b>CYFANSWM MEWNBYNNAU</b>	<b>67,421</b>	<b>930</b>	<b>1,010</b>
<b>ELW CYN RHENT A CHYLLID</b>	<b>19,060</b>	<b>263</b>	<b>493</b>
Rhent	3,180	44	29
Cyllid	2,330	32	19
<b>ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID</b>	<b>13,550</b>	<b>187</b>	<b>445</b>
Llafur di-dâl	4,126	57	80



	Wedi'i pherchnogi	Tenant	Cymysg
<b>MANTOLEN</b>	£/fferm	£/fferm	£/fferm
Nifer o ffermydd	28	9	19
CYFANSWM ASEDAU	883,660	164,833	995,725
CYF. DYLEDION ALLANOL	64,143	10,711	84,551
<b>GWERTH NET</b>	<b>819,517</b>	<b>154,122</b>	<b>911,174</b>
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	93	94	92

<b>DATA FFISEGOL</b>	Pob fferm	Traean uchaf
<b>ARWYNEBEDD TIR</b>	Hectarau	Hectarau
Glaswelltir a chnydau phorthiant	63.19	56.51
Ydau a chnydau eraill	3.33	2.28
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	10.54	8.72
<b>CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)</b>	<b>77.06</b>	<b>67.51</b>
<b>CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)</b>	<b>72.52</b>	<b>62.93</b>

<b>DA BYW</b>	Pob fferm	Traean uchaf
	Nifer	Nifer
Buchod sugno	18	12
Gwartheg eraill	75	68
Defaid magu	302	381
Defaid eraill	237	331

<b>DANGOSYDDION PERFFORMIAD</b>	Pob fferm	Traean uchaf
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad )	1.45	1.46
Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (nifer y ddafad)	1.28	1.29
Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (£ y oen)	72.62	74.68
Lloi a fegir (nifer y fuwch )	0.88	0.82
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi ( £ y pen)	1,229	1,333
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	848	909
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	1.31	1.40

## DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd : 67

	Pob fferm	Pob fferm	Traean uchaf
	£/fferm	£/eff.ha.	£/eff.ha.
<b>ALLBYNNAU</b>			
Buchod godro - llaeth	213,052	2,226	2,876
- allbwn arall	85	1	63
Gwartheg eraill	37,727	394	364
Defaid	12,599	132	117
Cnydau a phorthiant	2,025	21	31
Taliad Sylfaenol	17,925	187	208
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	1,204	13	11
Incwm o gynhyrchu egni	1,910	20	35
Incwm amrywiol	6,534	68	145
<b>CYFANSWM ALLBYNNAU</b>	<b>293,061</b>	<b>3,062</b>	<b>3,850</b>
<b>MEWNBYNNAU</b>			
Bwydydd	75,187	786	894
Costau tir pori tymhorol	11,908	124	136
Milfeddygol a meddyginiaethau	10,373	108	115
Costau da byw eraill	23,268	243	241
Gwrteithiau	17,102	179	193
Costau cnydau eraill	4,399	46	48
Contractio penodedig	15,440	161	163
<b>CYF. COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>157,677</b>	<b>1,647</b>	<b>1,790</b>
Llafur y telir amdano	14,134	148	183
Contractio arall a llogi peiriannau	3,593	38	32
Tanwydd a thrwsio	15,919	166	160
Dibrisiant peiriannau	19,614	205	246
Costau ffermio cyffredinol	19,093	199	197
Costau tir	7,481	78	78
Dibrisiant adeiladau	12,338	129	119
<b>CYF. COSTAU SEFYDLOG</b>	<b>92,172</b>	<b>963</b>	<b>1,015</b>
<b>CYFANSWM MEWNBYNNAU</b>	<b>249,849</b>	<b>2,610</b>	<b>2,805</b>
<b>ELW CYN RHENT A CHYLLID</b>	<b>43,212</b>	<b>452</b>	<b>1,045</b>
Rhent	6,315	66	62
Cyllid	11,106	116	80
<b>ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID</b>	<b>25,791</b>	<b>270</b>	<b>903</b>
Llafur di-dâl	11,120	116	125

	Wedi'i pherchnogi £/fferm	Tenant £/fferm	Cymysg £/fferm
<b>MANTOLEN</b>			
Nifer o ffermydd	34	1	32
CYFANSWM ASED AU	1,512,755	-	1,099,429
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	303,361	-	339,629
<b>GWERTH NET</b>	<b>1,209,394</b>	-	<b>759,800</b>
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	80	-	69

<b>DATA FFISEGOL</b>	<b>Pob fferm</b>	<b>Traean uchaf</b>
<b>ARWYNEBEDD TIR</b>	<b>Hectarau</b>	<b>Hectarau</b>
Glaswelltir a chnydau phorthiant	90.78	96.61
Ydau a chnydau eraill	1.07	1.16
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	11.87	10.55
<b>CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)</b>	<b>103.72</b>	<b>108.32</b>
<b>CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)</b>	<b>95.71</b>	<b>100.40</b>

	<b>Pob fferm</b>	<b>Traean uchaf</b>
<b>DA BYW</b>	<b>Nifer</b>	<b>Nifer</b>
Buchod godro	140	170
Buchod sugno	1	3
Gwartheg eraill	118	117
Defaid magu	203	202
Defaid eraill	119	134

	<b>Pob fferm</b>	<b>Traean uchaf</b>
<b>DANGOSYDDION PERFFORMIAD</b>		
Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch)	6,824	7,104
Mantais dros ddwysfwyd (£ y fuwch)	1,061	1,237
Gwerthiant llaeth (£ y fuwch)	1,496	1,669
Pris llaeth (ceiniogau y litr)	22.24	23.86
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	2.06	2.32

## DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd : 56

	Pob fferm	Pob fferm	Traean uchaf
	£/fferm	£/eff.ha.	£/eff.ha.
<b>ALLBYNNAU</b>			
Buchod godro - llaeth	310,660	2,715	3,651
- allbwn arall	-256	-2	32
Gwartheg eraill	53,643	469	609
Defaid	3,996	35	44
Cnydau a phorthiant	6,889	60	60
Taliad Sylfaenol	23,014	201	219
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	2,193	19	14
Incwm o gynhyrchu egni	2,815	25	36
Incwm amrywiol	3,805	33	33
<b>CYFANSWM ALLBYNNAU</b>	<b>406,759</b>	<b>3,555</b>	<b>4,698</b>
<b>MEWNBYNNAU</b>			
Bwydydd	105,701	924	1,178
Costau tir pori tymhorol	9,663	84	130
Milfeddygol a meddyginiaethau	13,396	117	133
Costau da byw eraill	31,319	274	320
Gwrteithiau	20,204	177	167
Costau cynydau eraill	7,858	69	71
Contractio penodedig	20,928	183	216
<b>CYF. COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>209,069</b>	<b>1,828</b>	<b>2,215</b>
Llafur y telir amdano	28,400	248	197
Contractio arall a llogi peiriannau	3,980	35	18
Tanwydd a thrwsio	21,960	192	190
Dibrisiant peiriannau	25,171	220	275
Costau ffermio cyffredinol	25,138	220	216
Costau tir	9,438	82	91
Dibrisiant adeiladau	13,196	115	135
<b>CYF. COSTAU SEFYDLOG</b>	<b>127,283</b>	<b>1,112</b>	<b>1,122</b>
<b>CYFANSWM MEWNBYNNAU</b>	<b>336,352</b>	<b>2,940</b>	<b>3,337</b>
<b>ELW CYN RHENT A CHYLLID</b>	<b>70,407</b>	<b>615</b>	<b>1,361</b>
Rhent	7,825	68	57
Cyllid	9,986	87	50
<b>ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID</b>	<b>52,596</b>	<b>460</b>	<b>1,254</b>
Llafur di-dâl	9,936	87	109

	Wedi'i pherchnogi £/fferm	Tenant £/fferm	Cymysg £/fferm
<b>MANTOLEN</b>			
Nifer o ffermydd	25	5	26
CYFANSWM ASED AU	2,063,278	314,889	1,537,510
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	330,114	43,908	352,352
<b>GWERTH NET</b>	<b>1,733,164</b>	<b>270,981</b>	<b>1,185,158</b>
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	84	86	77

<b>DATA FFISEGOL</b>	Pob fferm	Traean uchaf
<b>ARWYNEBEDD TIR</b>	Hectarau	Hectarau
Glaswelltir a chnydau phorthiant	109.37	99.39
Ydau a chnydau eraill	4.27	3.77
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	7.34	6.02
<b>CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)</b>	<b>120.98</b>	<b>109.18</b>
<b>CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)</b>	<b>114.43</b>	<b>104.25</b>

<b>DA BYW</b>	Pob fferm Nifer	Traean uchaf Nifer
Buchod godro	180	183
Buchod sugno	0	0
Gwartheg eraill	147	154
Defaid magu	75	70
Defaid eraill	47	29

<b>DANGOSYDDION PERFFORMIAD</b>	Pob fferm	Traean uchaf
Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch)	7,346	8,286
Mantais dros ddwysfwyd (£ y fuwch)	1,214	1,487
Gwerthiant llaeth (£ y fuwch)	1,709	2,063
Pris llaeth (ceiniogau y litr)	23.54	25.16
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	2.19	2.39

**ELW BRAS: DEFAID MYNYDD****2015/16**

	<b>Pob diadell</b>	<b>Traean uchaf</b>
Nifer o ddiadelloedd yn y sampl	209	70
Maint y ddiadell (i'r hwrdd)	651	551
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad )	1.19	1.41

**ALLBWN Y FENTER****£ y ddafad****£ y ddafad**

Gwerthiant ŵyn - stôr	4.26	2.97
- wedi'u pesgi	51.39	74.08
Gwerthiant defaid eraill	15.85	21.70
Gwerthiant gwllân	2.21	2.60
Amrywiol	0.04	0.00
Newid mewn gwerth	1.58	3.87
Pryniant defaid	-7.59	-10.70
<b>CYFANSWM ALLBWN Y FENTER</b>	<b>67.74</b>	<b>94.52</b>

**COSTAU NEWIDIOL**

Porthiant a bwyd wedi'i brynu	13.39	15.17
Costau tir pori tymhorol	3.17	2.11
Milfeddygol a meddyginiaethau	4.88	5.33
Costau da byw eraill	5.95	6.66
Contractio penodedig	1.02	1.04
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	10.97	11.52
<b>CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>39.38</b>	<b>41.83</b>

**ELW BRAS****28.36****52.69****ELW BRAS: DEFAID UCHELDIR****Pob diadell****Traean uchaf**

Nifer o ddiadelloedd yn y sampl	69	23
Maint y ddiadell (i'r hwrdd)	489	447
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad )	1.42	1.54

**ALLBWN Y FENTER****£ y ddafad****£ y ddafad**

Gwerthiant ŵyn - stôr	2.80	0.08
- wedi'u pesgi	81.42	95.32
Gwerthiant defaid eraill	15.61	21.81
Gwerthiant gwllân	2.59	2.59
Amrywiol	0.03	0.00
Newid mewn gwerth	2.04	2.77
Pryniant defaid	-15.59	-17.28
<b>CYFANSWM ALLBWN Y FENTER</b>	<b>88.90</b>	<b>105.29</b>

**COSTAU NEWIDIOL**

Porthiant a bwyd wedi'i brynu	15.76	14.57
Costau tir pori tymhorol	1.21	1.46
Milfeddygol a meddyginiaethau	6.20	6.37
Costau da byw eraill	7.38	7.72
Contractio penodedig	1.22	1.11
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	15.80	14.25
<b>CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>47.57</b>	<b>45.48</b>

**ELW BRAS****41.33****59.81**

**ELW BRAS: DEFAID LLAWR GWLAD****2015/16**

	<b>Pob diadell</b>	<b>Traean uchaf</b>
Nifer o ddiadelloedd yn y sampl	41	14
Maint y ddiadell (i'r hwrdd)	354	407
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad )	1.44	1.51

**ALLBWN Y FENTER****£ y ddafad****£ y ddafad**

Gwerthiant ŵyn - stôr	0.21	0.02
- wedi'u pesgi	94.25	110.48
Gwerthiant defaid eraill	16.08	19.76
Gwerthiant gwlan	2.94	2.98
Amrywiol	0.00	0.01
Newid mewn gwerth	0.29	-3.95
Pryniant defaid	-14.26	-17.63
<b>CYFANSWM ALLBWN Y FENTER</b>	<b>99.51</b>	<b>111.67</b>

**COSTAU NEWIDIOL**

Porthiant a bwyd wedi'i brynu	16.73	16.08
Costau tir pori tymhorol	1.00	1.32
Milfeddygol a meddyginiaethau	6.67	7.12
Costau da byw eraill	9.34	9.00
Contractio penodedig	1.51	0.98
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	14.07	11.22
<b>CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>49.32</b>	<b>45.72</b>

**ELW BRAS****50.19****65.95****ELW BRAS: BUCHOD SUGNO LLAWR GWLAD**

	<b>Pob buches</b>	<b>Traean uchaf</b>
Nifer o fuchesi yn y sampl	21	7
Maint y fuches (buchod magu)	41	48
Lloi a fegir (nifer y fuwch )	0.87	0.90
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,222	1,247
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	833	914

**ALLBWN Y FENTER****£ y fuwch****£ y fuwch**

Gwerthiant lloi a gwartheg stôr	434.48	363.13
Gwerthiant teirw a buchod	95.33	50.71
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi	511.95	527.44
Newid mewn gwerth	28.86	99.11
Pryniant gwartheg	-220.86	-144.25
<b>CYFANSWM ALLBWN Y FENTER</b>	<b>849.76</b>	<b>896.14</b>

**COSTAU NEWIDIOL**

Porthiant a bwyd wedi'i brynu	130.14	80.08
Milfeddygol a meddyginiaethau	28.37	17.25
Costau da byw eraill	80.65	69.06
Contractio penodedig	5.08	0.12
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	201.58	144.23
<b>CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>445.82</b>	<b>310.74</b>

**ELW BRAS****403.94****585.40**

<b>ELW BRAS: BUCHOD SUGNO UCHELDIR</b>		<b>2015/16</b>	
	<b>Pob buches</b>	<b>Traean uchaf</b>	
Nifer o fuchesi yn y sampl	42	14	
Maint y fuches (buchod magu)	51	56	
Lloi a fegir (nifer y fuwch )	0.91	0.94	
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,169	1,139	
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	861	1,007	
<b>ALLBWN Y FENTER</b>	<b>£ y fuwch</b>	<b>£ y fuwch</b>	
Gwerthiant lloi a gwartheg stôr	468.63	415.20	
Gwerthiant teirw a buchod	105.56	129.79	
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi	409.79	515.53	
Newid mewn gwerth	50.97	85.42	
Prynant gwartheg	-197.12	-165.96	
<b>CYFANSWM ALLBWN Y FENTER</b>	<b>837.83</b>	<b>979.98</b>	
<b>COSTAU NEWIDIOL</b>			
Porthiant a bwyd wedi'i brynu	131.07	98.09	
Milfeddygol a meddyginiaethau	37.65	33.59	
Costau da byw eraill	72.12	72.69	
Contractio penodedig	5.88	2.51	
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	166.04	169.92	
<b>CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>412.76</b>	<b>376.80</b>	
<b>ELW BRAS</b>	<b>425.07</b>	<b>603.18</b>	

### **ELW BRAS: BUCHOD SUGNO MYNYDD**

	<b>Pob buches</b>	<b>Traean uchaf</b>	
Nifer o fuchesi yn y sampl	129	43	
Maint y fuches (buchod magu)	39	33	
Lloi a fegir (nifer y fuwch )	0.89	0.94	
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,151	1,188	
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	904	934	
<b>ALLBWN Y FENTER</b>	<b>£ y fuwch</b>	<b>£ y fuwch</b>	
Gwerthiant lloi a gwartheg stôr	707.15	782.92	
Gwerthiant teirw a buchod	100.70	88.04	
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi	186.25	238.24	
Newid mewn gwerth	38.80	66.77	
Prynant gwartheg	-207.78	-188.62	
<b>CYFANSWM ALLBWN Y FENTER</b>	<b>825.12</b>	<b>987.35</b>	
<b>COSTAU NEWIDIOL</b>			
Porthiant a bwyd wedi'i brynu	165.15	120.87	
Milfeddygol a meddyginiaethau	47.33	37.28	
Costau da byw eraill	81.52	68.26	
Contractio penodedig	6.31	3.43	
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	156.23	135.91	
<b>CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>456.54</b>	<b>365.75</b>	
<b>ELW BRAS</b>	<b>368.58</b>	<b>621.60</b>	



**ELW BRAS: BUCHOD GODRO ARDALOEDD LLAI FFAFRIOL**

		<b>2015/16</b>
	<b>Pob buches</b>	<b>Traean uchaf</b>
Nifer o fuchesi yn y sampl	65	22
Maint y fuches (buchod godro)	141	180
Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch)	6,854	7,317
Pris llaeth (ceiniogau y litr)	22.24	24.21

**ALLBWN Y FENTER**

	<b>£ y fuwch</b>	<b>£ y fuwch</b>
Llaeth	1,524.04	1,770.34
Lloi	108.84	118.06
Gwerthiant teirw a buchod	153.99	146.09
Newid mewn gwerth	16.26	52.16
Prynant gwartheg	-272.42	-293.15
<b>CYFANSWM ALLBWN Y FENTER</b>	<b>1,530.71</b>	<b>1,793.50</b>

**COSTAU NEWIDIOL**

Porthiant a bwyd wedi'i brynu	456.14	473.61
Milfeddygol a meddyginiaethau	61.05	64.74
Costau da byw eraill	129.17	125.21
Contractio penodedig	16.91	14.89
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	180.16	186.79
<b>CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>843.43</b>	<b>865.24</b>

**ELW BRAS**

<b>687.28</b>	<b>928.26</b>
---------------	---------------

**ELW BRAS: BUCHOD GODRO LLAWR GWLAD**

	<b>Pob buches</b>	<b>Traean uchaf</b>
Nifer o fuchesi yn y sampl	54	18
Maint y fuches (buchod godro)	183	158
Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch)	7,344	8,237
Pris llaeth (ceiniogau y litr)	23.64	26.67

**ALLBWN Y FENTER**

	<b>£ y fuwch</b>	<b>£ y fuwch</b>
Llaeth	1,735.88	2,196.53
Lloi	101.59	123.43
Gwerthiant teirw a buchod	155.57	235.63
Newid mewn gwerth	13.02	24.31
Prynant gwartheg	-274.11	-337.53
<b>CYFANSWM ALLBWN Y FENTER</b>	<b>1,731.95</b>	<b>2,242.37</b>

**COSTAU NEWIDIOL**

Porthiant a bwyd wedi'i brynu	509.05	606.85
Milfeddygol a meddyginiaethau	65.14	64.64
Costau da byw eraill	150.08	174.65
Contractio penodedig	26.28	28.22
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	178.81	174.45
<b>CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>929.36</b>	<b>1,048.81</b>

**ELW BRAS**

<b>802.59</b>	<b>1,193.56</b>
---------------	-----------------

**COSTAU CYNHYRCHU CIG OEN****2015/16****Ceiniogau y kg pwysau byw**

	<b>Pob fferm</b>	<b>Traean uchaf</b>	<b>Traean isaf</b>
Nifer o ffermydd	128	43	43
Bwyd	33.66	27.24	38.48
Milfeddygol a meddyginiaethau	10.67	9.65	10.74
Costau da byw eraill	17.30	15.25	19.47
Porthiant	25.97	19.28	32.18
<b>CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>87.60</b>	<b>71.42</b>	<b>100.87</b>

**ADNEWYDDU DIADELL**

	<b>11.83</b>	<b>5.22</b>	<b>17.40</b>
--	--------------	-------------	--------------

Llafur y telir amdano	4.95	1.64	7.51
Pŵer a pheiriannau	40.55	29.55	52.45
Adeiladau	13.14	8.40	19.51
Costau fferm cyffredinol	19.09	14.85	23.66
Rhent	7.85	4.50	12.43
Cyllid	5.65	3.70	9.95
<b>CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG</b>	<b>91.23</b>	<b>62.64</b>	<b>125.51</b>

**CYFANSWM COSTAU**

	<b>190.66</b>	<b>139.28</b>	<b>243.78</b>
--	---------------	---------------	---------------

**ELW NET**

	<b>-22.72</b>	<b>31.43</b>	<b>-81.75</b>
--	---------------	--------------	---------------

Ŵyn a fegir (nifer y ddafad )	1.34	1.42	1.22
Maint y ddiadell	634	582	671
Cyfartaledd oen pwysau byw (kg)	39.81	41.34	37.59

**COSTAU CYNHYRCHU LLAETH****Ceiniogau y litr**

	<b>Pob fferm</b>	<b>Traean uchaf</b>	<b>Traean isaf</b>
Nifer o ffermydd	119	40	40
Bwyd	6.59	6.25	7.22
Milfeddygol a meddyginiaethau	0.86	0.76	0.92
Costau da byw eraill	2.32	2.12	2.77
Porthiant	2.48	2.17	2.87
<b>CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>12.25</b>	<b>11.30</b>	<b>13.78</b>

**ADNEWYDDU BUCHES**

	<b>1.72</b>	<b>1.40</b>	<b>2.25</b>
--	-------------	-------------	-------------

Llafur y telir amdano	0.92	0.63	1.35
Pŵer a pheiriannau	2.60	2.30	2.82
Adeiladau	1.13	0.86	1.44
Costau fferm cyffredinol	1.42	1.22	1.66
Rhent	0.42	0.37	0.52
Cyllid	0.57	0.26	0.97
<b>CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG</b>	<b>7.06</b>	<b>5.64</b>	<b>8.76</b>

**CYFANSWM COSTAU**

	<b>21.03</b>	<b>18.34</b>	<b>24.79</b>
--	--------------	--------------	--------------

**ELW NET**

	<b>3.26</b>	<b>7.89</b>	<b>-1.52</b>
--	-------------	-------------	--------------

Mantais dros ddwysfwyd	16.10	18.22	14.45
Pris llaeth	22.49	24.21	21.43

**COSTAU CYNHYRCHU CIG EIDION : LLOI SUGNO 2015/16**

<b>Ceiniogau y kg pwysau byw</b>	<b>Pob fferm</b>	<b>Traean uchaf</b>	<b>Traean isaf</b>
Nifer o ffermydd	42	14	14
Bwyd	15.16	7.37	25.26
Milfeddygol a meddyginiaethau	10.25	9.04	12.68
Costau da byw eraill	15.31	12.74	19.54
Porthiant	41.29	30.12	52.37
<b>CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>82.01</b>	<b>59.27</b>	<b>109.85</b>
<b>ADNEWYDDU BUCHES</b>	<b>22.65</b>	<b>11.05</b>	<b>33.43</b>
Llafur y telir amdano	5.53	3.81	7.34
Pŵer a pheiriannau	64.43	46.93	86.63
Adeiladau	22.38	14.14	34.23
Costau fferm cyffredinol	30.09	23.47	40.99
Rhent	5.75	4.93	6.04
Cyllid	8.42	4.27	16.10
<b>CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG</b>	<b>136.60</b>	<b>97.55</b>	<b>191.33</b>
<b>CYFANSWM COSTAU</b>	<b>241.26</b>	<b>167.87</b>	<b>334.61</b>
<b>ELW NET</b>	<b>-72.87</b>	<b>10.19</b>	<b>-170.15</b>

Mae cynhyrchu lloi sugno yn cyfeirio at gostau buchod sugno a'u lloi hyd at adeg diddyfnu.

**COSTAU CYNHYRCHU CIG EIDION: PESGI**

<b>Ceiniogau y kg pwysau byw</b>	<b>Pob fferm</b>	<b>Traean uchaf</b>	<b>Traean isaf</b>
Nifer o ffermydd	30	10	10
Bwyd	56.86	63.86	65.48
Milfeddygol a meddyginiaethau	5.79	3.83	9.47
Costau da byw eraill	30.58	20.39	46.03
Porthiant	44.17	34.83	64.98
<b>CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL</b>	<b>137.40</b>	<b>122.91</b>	<b>185.96</b>
Llafur y telir amdano	10.64	5.81	16.19
Pŵer a pheiriannau	57.64	39.09	83.82
Adeiladau	14.37	9.62	18.69
Costau fferm cyffredinol	26.61	18.25	33.64
Rhent	8.91	7.79	4.74
Cyllid	6.67	3.42	12.38
<b>CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG</b>	<b>124.84</b>	<b>83.98</b>	<b>169.46</b>
<b>CYFANSWM COSTAU</b>	<b>262.24</b>	<b>206.89</b>	<b>355.42</b>
<b>ELW NET</b>	<b>-51.80</b>	<b>28.12</b>	<b>-150.22</b>

Mentrau pesgi yw'r rai hynny sy'n prynu gwartheg cryfion ag ifanc, a'r rhai sy'n pesgi lloi fagwyd ar y fferm ar ôl diddyfnu.

## Anghenion Elw Fferm

Mae'n rhaid cael elw er mwyn ariannu:

Codi arian personol o'r busnes,  
Ad-dalu benthyciadau (cyfalaf),  
Gwariant / buddsoddiad cyfalaf,  
Treth bersonol, a  
Risg a gwobrwyo ymdrech entrepreneuriaidd

Mae'r cyfrifiad canlynol yn helpu i benderfynu a oes elw digonol i sicrhau digon o adnoddau ariannol:

### Elw fel y dangosir yn y cyfrifon

**Plws:** Costau dibrisiant am y flwyddyn  
Stoc gychwynnol (da byw a storfeydd eraill)  
Dyledwyr cychwynnol a chredydwyr terfynol  
Benthyciadau / HP wedi'u codi a chyfalaf a gyflwynwyd  
Gwerthu tir a pheiriannau

**Tynnu :** Stoc derfynol (da byw a storfeydd eraill)  
Dyledwyr terfynol a chredydwyr cychwynnol  
Cynnyrch wedi'i ddefnyddio/bwyta ar y fferm

**Hafal i :** Arian i dalu am ymrwymadau

**Tynnu :** Codi arian personol o'r busnes  
Ad-daliadau benthyciadau / HP (cyfalaf)  
Gwariant / buddsoddiad cyfalaf  
Treth bersonol

**Hafal i :** Llif Arian Net Blyneddol (LIANB)

Yn ddelfrydol dylai'r LIANB fod yn bositif gan amlaf (i'w weld fel gwelliant ym malans banc / dyledion y fferm). Yr eitemau sydd yn dylanwadu fwyaf ar y tebygolrwydd y bydd y llif arian net yn bositif yw:

Maint yr elw  
Lefel y codi arian personol  
Gwariant cyfalaf  
Ad-dalu benthyciadau / HP

Gall LIANB negyddol (h.y. proffidioldeb fferm annigonol ac/neu alw mawr ar arian parod) effeithio'n sylweddol ar hyfywdra y busnes yn y tymor hir.